



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2014 Rhif 1514 (Cy. 155)**

**2014 No. 1514 (W. 155)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol  
(Rheolau Sefydlog) (Cymru)  
(Diwygio) 2014**

**The Local Authorities (Standing  
Orders) (Wales) (Amendment)  
Regulations 2014**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1275) (Cy. 121) ("Rheoliadau 2006").

Mae Rheoliadau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau perthnasol (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru) ymgorffori darpariaethau penodol yn ymwneud â'u staff, eu cyfarfodydd a'u trafodion yn eu rheolau sefydlog. Mae'n ofynnol i'r awdurdodau perthnasol wneud neu addasu rheolau sefydlog fel eu bod yn cynnwys y darpariaethau a nodir yn Rheoliadau 2006 neu ddarpariaethau sy'n cael yr un effaith.

Yn rhannol, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2006 er mwyn adlewyrchu'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4) ("y Mesur").

Roedd adran 8 o'r Mesur yn gwneud darpariaeth i gynghorau bwrdeistrefi sirol neu gynghorau sir yng Nghymru ddynodi un o'u swyddogion yn bennaeth gwasanaethau democrataidd.

Cafodd yr opsiwn maer etholedig a rheolwr cyngor o'r trefniadau gweithrediaeth sydd ar gael yng Nghymru ei ddileu gan adran 34 o'r Mesur. Roedd adran 35 o'r Mesur yn darparu bod yn rhaid i gynghorau bwrdeistrefi sirol neu gynghorau sir yng Nghymru sy'n gweithredu trefniadau amgen symud i weithredu un o'r trefniadau gweithrediaeth a ddisgrifir yn adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae rheoliad 3 yn mewnosod yn Rheoliadau 2006 ddiffiniadau o'r "pennaeth gwasanaethau democrataidd" a "cydnabyddiaeth ariannol".

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/1275) (W. 121) ("the 2006 Regulations").

The 2006 Regulations require relevant authorities (county and county borough councils in Wales) to incorporate into their standing orders certain provisions relating to their staff, meetings and proceedings. Relevant authorities are required to make or modify standing orders so that they include the provisions set out in the 2006 Regulations or provisions to the like effect.

In part these Regulations amend the 2006 Regulations to reflect provisions in the Local Government (Wales) Measure 2011 (nawm 4) ("the Measure").

Section 8 of the Measure made provision for county borough councils or county councils in Wales to designate one of their officers as the head of democratic services.

Section 34 of the Measure removed the elected mayor and council manager option from the executive arrangements available in Wales. Section 35 of the Measure provided that county borough councils or county councils in Wales operating alternative arrangements must move to operating one of the executive arrangements described in section 11 of the Local Government Act 2000.

Regulation 3 inserts in the 2006 Regulations definitions of the "head of democratic services" and "remuneration".

Mae rheoliadau 3 i 5 yn dileu'r cyfeiriadau yn Rheoliadau 2006 at "trefniadau amgen" a "rheolwr y cyngor".

Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 7 o Reoliadau 2006 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r holl benderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol i brif swyddogion gael eu gwneud drwy benderfyniad yr awdurdod ei hun.

Mae rheoliadau 7 ac 8 yn gwneud darpariaeth i unrhyw ymchwiliad i gamymddwyn honedig gan bennaeth gwasanaethau democrataidd neu gan unrhyw swyddog a oedd yn swyddog y cyfeirir ato yn rheoliad 8(1) o Reoliadau 2006, ond nad yw bellach, ar adeg penodi'r pwyllgor ymchwilio, yn swyddog o'r fath, ddilyn y gweithdrefnau sy'n gymwys i bennaeth gwasanaeth taledig, swyddog monitro neu brif swyddog cyllid, pan fo'r camymddwyn honedig neu, yn ôl y digwydd, y rheswm dros y cynnig o ddiswyddo, wedi digwydd yn ystod y cyfnod yr oedd y swyddog dan sylw yn swyddog y cyfeirir ato yn y rheoliad hwnnw. Gwneir mân ddiwygiad hefyd i reoliad 9 o Reoliadau 2006.

Mae rheoliad 9 yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 1 i Reoliadau 2006 sy'n golygu, pan fo'r awdurdod perthnasol yn bwriadu penodi prif swyddog a bod y gydnabyddiaeth ariannol y mae'n bwriadu ei thalu i'r prif swyddog yn £100,000 y flwyddyn neu'n fwy, bod yn rhaid i'r swydd gael ei hysbysebu yn allanol. Nid yw'r rhwymedigaeth i hysbysebu'n allanol yn gymwys pan fo'r awdurdod yn bwriadu penodi prif swyddog am gyfnod o ddim mwy na 12 mis. Mae rheoliad 9 hefyd yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2006 i ddileu'r amrywiad awdurdodedig sy'n caniatáu i awdurdodau benderfynu peidio â hysbysebu'n allanol pan fyddant yn bwriadu penodi prif swyddog anstatudol.

Mae rheoliad 10 yn diwygio Rheoliadau 2006 er mwyn atal penodi swyddog monitro neu bennaeth gwasanaethau democrataidd, ei ddiswyddo neu gymryd camau disgyblu yn ei erbyn, rhag cael eu cyflawni gan bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod neu swyddog a enwebir gan bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod. Mae'r rheoliad yn diogelu, yn yr un modd, unrhyw swyddog y bwriedir cymryd camau disgyblu mewn perthynas ag ef ac a oedd yn swyddog y cyfeirir ato yn y rheoliad hwnnw, ond nad yw bellach, ar adeg y camau disgyblu arfaethedig, yn swyddog o'r fath, pan fo'r camymddwyn honedig neu, yn ôl y digwydd, y rheswm dros y cynnig o ddiswyddo, wedi digwydd yn ystod y cyfnod yr oedd y swyddog dan sylw yn swyddog y cyfeirir ato yn y rheoliad hwnnw.

Regulations 3 to 5 remove references in the 2006 Regulations to "alternative arrangements" and the "council manager".

Regulation 6 amends regulation 7 of the 2006 Regulations to require all decisions on the remuneration of chief officers to be taken by resolution of the authority itself.

Regulations 7 and 8 make provision for any investigation into alleged misconduct by a head of democratic services or by any officer who was, but at the time the investigation committee is appointed no longer is, an officer referred to in regulation 8(1) of the 2006 Regulations to follow the procedures applying to a head of paid service, a monitoring officer or a chief finance officer, where the alleged misconduct or, as the case may be, the reason for the proposal for dismissal, occurred during the period when the officer was an officer referred to in that regulation. A minor amendment is also made to regulation 9 of the 2006 Regulations.

Regulation 9 amends Part 1 of Schedule 1 to the 2006 Regulations so that where the relevant authority proposes to appoint a chief officer and the remuneration it proposes to pay to the chief officer is £100,000 per annum or greater, the vacancy must be advertised externally. The obligation to advertise externally does not apply where the authority proposes to appoint a chief officer for a period of no longer than 12 months. Regulation 9 also amends Part 2 of Schedule 1 to the 2006 Regulations to remove the authorised variation permitting authorities to decide not to advertise externally when they propose to appoint a non-statutory chief officer.

Regulation 10 amends the 2006 Regulations so as to prevent the appointment or dismissal of, or the taking of disciplinary action against, a monitoring officer or a head of democratic services being discharged by the head of the authority's paid service or by an officer nominated by the head of the authority's paid service. The regulation extends the same protection to any officer in relation to whom disciplinary action is proposed and who was, but at the time of the proposed disciplinary action no longer is, an officer referred to in that regulation where the alleged misconduct or, as the case may be, the reason for the proposal for dismissal, occurred during the period when the officer was an officer referred to in that regulation.

Mae rheoliad 10 yn dileu Rhannau 3 a 4 o Atodlen 3 i Reoliadau 2006, sy'n ymwneud â'r trefniadau gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor a ddiddymwyd ac â threfniadau amgen.

Mae rheoliad 11 yn diwygio Atodlen 4 i Reoliadau 2006 i fod yn gyson â'r diwygiadau eraill a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 12 yn cynnwys darpariaethau trosiannol mewn perthynas â rheolau sefydlog presennol ar gyfer camau disgyblu a wnaed o dan Reoliadau 2006.

Mae rheoliad 13 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod perthnasol adolygu ei reolau sefydlog presennol i'r graddau ei bod yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn ddim hwyrach na'r dyddiad ddeng wythnos ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth y Tîm Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulation 10 removes Parts 3 and 4 of Schedule 3 to the 2006 Regulations, which relate to the abolished mayor and council manager executive arrangements and to alternative arrangements.

Regulation 11 amends Schedule 4 to the 2006 Regulations to be consistent with the other amendments made by these Regulations.

Regulation 12 contains transitional provisions in relation to existing standing orders for disciplinary action made under the 2006 Regulations.

Regulation 13 provides that a relevant authority must revise its existing standing orders in so far as is necessary to conform with the amendments made by these Regulations by no later than the date ten weeks after these Regulations come into force.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Scrutiny, Democracy and Participation Team, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2014 Rhif 1514 (Cy. 155)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol  
(Rheolau Sefydlog) (Cymru)  
(Diwygio) 2014**

*Gwnaed* 9 Mehefin 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 10 Mehefin 2014

*Yn dod i rym* 1 Gorffennaf 2014

**2014 No. 1514 (W. 155)**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**The Local Authorities (Standing  
Orders) (Wales) (Amendment)  
Regulations 2014**

*Made* 9 June 2014

*Laid before the National Assembly for Wales*  
10 June 2014

*Coming into force* 1 July 2014

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 8, 20 a 190 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(1) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(2).

**Enwi, cychwyn a dehongli**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2014.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2006" ("the 2006 Regulations") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 8, 20 and 190 of the Local Government and Housing Act 1989(1) and which are now vested in the Welsh Ministers so far as exercisable in relation to Wales(2).

**Title, commencement and interpretation**

1.—(1) The title of these Regulations is the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) (Amendment) Regulations 2014.

(2) These Regulations come into force on 1 July 2014.

(3) In these Regulations "the 2006 Regulations" ("Rheoliadau 2006") means the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006.

---

(1) 1989 p. 42. Diwygiwyd adran 8 gan adran 1(2)(a) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth (Datrys Anghydfodau) 1998 (p. 8) ac O.S. 2002/803 (Cy. 88); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol. Diwygiwyd adran 20 gan O.S. 2009/3318.

(2) Mae'r pwerau o dan adrannau 8, 20 a 190 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Yr oeddent wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), trosglwyddwyd hwy i Weiniogion Cymru.

---

(1) 1989 c. 42. Section 8 was amended by section 1(2)(a) of the Employment Rights (Dispute Resolution) Act 1998 (c. 8) and S.I. 2002/803 (W. 88); there are other amending instruments but none is relevant. Section 20 was amended by S.I. 2009/3318.

(2) Powers under sections 8, 20 and 190 of the Local Government and Housing Act 1989 are now vested in the Welsh Ministers so far as they are exercisable in relation to Wales. They were previously vested in the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). By virtue of paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32), they were transferred to the Welsh Ministers.

## Diwygiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006

2. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

3. Yn rheoliad 2 (dehongli)—

- (a) hepgorer y diffiniad o “trefniadau amgen” (“*alternative arrangements*”);
- (b) hepgorer y diffiniad o “rheolwr cyngor” (“*council manager*”);
- (c) hepgorer “ac” ar ôl y diffiniad o “swyddog monitro” (“*monitoring officer*”); a
- (d) yn y manau priodol mewnosoder—
  - (i) “ystyr “pennaeth gwasanaethau democrataidd” (“*head of democratic services*”) yw’r swyddog a ddynodwyd o dan adran 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (pennaeth gwasanaethau democrataidd)(2);” a
  - (ii) “mae i “cydnabyddiaeth ariannol” yr un ystyr â “remuneration” yn adran 43(3) o Ddeddf Lleoliaeth 2011(3);”.

4. Yn rheoliad 5 (trefniadau gweithredol – rheolau sefydlog yn ymwneud â staff)—

- (a) hepgorer paragraff (1)(c);
- (b) ym mharagraff (1)(ch) yn lle “(a), (b) ac (c)” rhodder “(a) a (b)”; ac
- (c) ym mharagraff (2) yn lle “(a), (b), (c) neu (d)” rhodder “(a), (b) neu (ch)”.

5. Hefgorer rheoliad 6 (trefniadau amgen – rheolau sefydlog yn ymwneud â staff).

6. Yn lle rheoliad 7 (rheolau sefydlog yn ymwneud â staff) rhodder—

### “Rheolau sefydlog yn ymwneud â staff

7.—(1) Lle bo gan awdurdod perthnasol reolau sefydlog yn ymgorffori darpariaethau’r Rheoliadau hyn a grybwyllir ym mharagraff (2), rhaid i’r swyddogaethau y cyfeirir atynt yn y paragraff hwnnw gael eu harfer gan yr awdurdod ei hun ac yn unol â hynny ni fydd adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau

## Amendments to the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006

2. The Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006(1) are amended as follows.

3. In regulation 2 (interpretation)—

- (a) omit the definition of “alternative arrangements” (“*trefniadau amgen*”);
- (b) omit the definition of “council manager” (“*rheolwr cyngor*”);
- (c) omit “and” following the definition of “relevant joint committee” (“*cydbwyllgor perthnasol*”); and
- (d) at the appropriate places insert—
  - (i) ““head of democratic services” (“*pennaeth gwasanaethau democrataidd*”) means the officer designated under section 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011 (head of democratic services)(2);” and
  - (ii) ““remuneration” (“*cydnabyddiaeth ariannol*”) has the same meaning as in section 43(3) of the Localism Act 2011(3);”.

4. In regulation 5 (executive arrangements – standing orders relating to staff)—

- (a) omit paragraph (1)(c);
- (b) in paragraph (1)(d) for “(a), (b) and (c)” substitute “(a) and (b)”; and
- (c) in paragraph (2) for “(a), (b), (c) or (d)” substitute “(a), (b) or (d)”.

5. Omit regulation 6 (alternative arrangements – standing orders relating to staff).

6. For regulation 7 (standing orders relating to staff) substitute—

### “Standing orders relating to staff

7.—(1) Where a relevant authority has standing orders incorporating the provisions of these Regulations mentioned in paragraph (2), the functions referred to in that paragraph must be exercised by the authority itself and accordingly section 101 of the Local Government Act 1972 (arrangements for

(1) O.S. 2006/1275 (Cy. 121), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy. 101).

(2) 2011 mccc 4.

(3) 2011 p. 20.

(1) S.I. 2006/1275 (W. 121), amended by S.I. 2010/1142 (W. 101).

(2) 2011 nawm 4.

(3) 2011 c. 20.

gan awdurdodau lleol)(1) yn gymwys i arfer y swyddogaethau hynny.

(2) Y darpariaethau yw—

- (a) paragraff 4(1) o Ran 1 o Atodlen 3 a pharagraff 4(1) o Ran 2 o Atodlen 3 yn ymwneud â'r swyddogaeth o gymeradwyo penodi neu ddiswyddo pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod; a
- (b) paragraff 6 o Ran 1 o Atodlen 3 a pharagraff 6 o Ran 2 o Atodlen 3 yn ymwneud â'r swyddogaeth o bennu lefel y gydnabyddiaeth ariannol sydd i'w thalu i brif swyddog, ac unrhyw newid i'r lefel honno."

7.—(1) Daw testun presennol rheoliad 8 (rheolau sefydlog o ran camau disgyblu) yn rheoliad 8(1).

(2) Yn rheoliad 8(1), yn lle "neu ei brif swyddog cyllid" rhodder " , ei brif swyddog cyllid, ei bennaeth gwasanaethau democrataidd neu unrhyw swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff (2)".

(3) Ar ôl rheoliad 8(1) mewnosoder—

"(2) Swyddog y bwriedir cymryd camau disgyblu mewn perthynas ag ef—

- (a) pan oedd y swyddog yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff (1), ond nad yw bellach, ar adeg y camau disgyblu arfaethedig, yn swyddog o'r fath; a
- (b) pan fo'r camymddwyn honedig neu, yn ôl y digwydd, y rheswm dros y cynnig o ddiswyddo, wedi digwydd yn ystod y cyfnod yr oedd y swyddog yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff (1)."

8. Yn rheoliad 9 (ymchwilio i gamymddwyn honedig)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Ar ôl i awdurdod perthnasol ymgorffori darpariaethau yn y rheolau sefydlog yn unol â rheoliad 8, os yw'n ymddangos i'r awdurdod perthnasol bod honiad o gamymddwyn a all arwain at gamau disgyblu wedi cael ei wneud yn erbyn swyddog perthnasol, rhaid i'r awdurdod perthnasol benodi pwyllgor

discharge of functions by local authorities)(1) does not apply to the exercise of those functions.

(2) The provisions are—

- (a) paragraph 4(1) of Part 1 of Schedule 3 and paragraph 4(1) of Part 2 of Schedule 3 relating to the function of approving the appointment or dismissal of the head of the authority's paid service; and
- (b) paragraph 6 of Part 1 of Schedule 3 and paragraph 6 of Part 2 of Schedule 3 relating to the function of determining the level, and any change in the level, of remuneration to be paid to a chief officer."

7.—(1) The existing text of regulation 8 (standing orders in respect of disciplinary action) becomes regulation 8(1).

(2) In regulation 8(1) for "or its chief finance officer" substitute " , its chief finance officer, its head of democratic services or any officer referred to in paragraph (2)".

(3) After regulation 8(1) insert—

"(2) An officer in relation to whom disciplinary action is proposed where—

- (a) the officer was, but at the time of the proposed disciplinary action no longer is, an officer referred to in paragraph (1); and
- (b) the alleged misconduct or, as the case may be, the reason for the proposal for dismissal, occurred during the period when the officer was an officer referred to in paragraph (1)."

8. In regulation 9 (investigation of alleged misconduct)—

(a) for paragraph (1) substitute—

"(1) Where, after a relevant authority has incorporated provisions in standing orders pursuant to regulation 8, it appears to the relevant authority that an allegation of misconduct which may lead to disciplinary action has been made against a relevant officer,

(1) 1972 p. 70. Diwygiwyd adran 101 gan O.S. 2002/803 (Cy. 88), paragraff 3(2) a (3) o Atodlen 3 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20), paragraff 1 o Ran 4 o Atodlen 22 i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), paragraff 26(3) o Atodlen 15 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) ac adrannau 1 a 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p. 51), ac Atodlen 17 iddi. Mae diwygiadau eraill i'r adran honno nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) 1972 c. 70. Section 101 was amended by S.I. 2002/803 (W. 88), paragraph 3(2) and (3) of Schedule 3 to the Localism Act 2011 (c. 20), paragraph 1 of Part 4 of Schedule 22 to the Marine and Coastal Access Act 2009 (c. 23), paragraph 26(3) of Schedule 15 to the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19) and sections 1 and 102 of, and Schedule 17 to, the Local Government Act 1985 (c. 51). There are other amendments to that section which are not relevant to these Regulations.



(“pwyllgor ymchwilio”) i ystyried y camymddwyn honedig.

(1A) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr “swyddog perthnasol” (“*relevant officer*”) yw—

- (a) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;
- (b) ei swyddog monitro;
- (c) ei brif swyddog cyllid;
- (ch) ei bennaeth gwasanaethau democrataidd; neu
- (d) swyddog a oedd yn swyddog y cyfeirir ato yn is-baragraffau (a) i (ch), ond nad yw bellach, ar adeg penodi’r pwyllgor ymchwilio, yn swyddog o’r fath, pan fo’r camymddwyn honedig wedi digwydd yn ystod y cyfnod pan oedd y swyddog yn swyddog y cyfeirir ato yn yr is-baragraffau hynny.”;

(b) ym mharagraff (5)(b) yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Weinidogion Cymru”; ac

(c) hepgorer paragraff (11).

9.—(1) Yn Atodlen 1, yn Rhan 1—

(a) yn lle paragraff 1 rhodder—

“1.—(1) Rhaid i awdurdod perthnasol gymryd y camau a nodir yn is-baragraff (2) pan fo—

- (a) yr awdurdod perthnasol yn bwriadu penodi prif swyddog (o fewn ystyr Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006); a
- (b) y gydnabyddiaeth ariannol y mae’r awdurdod perthnasol yn bwriadu ei thalu i’r prif swyddog yn £100,000 y flwyddyn neu’n fwy.

(2) Y camau yw—

- (a) llunio datganiad yn manylu—
  - (i) dyletswyddau’r swyddog dan sylw, a
  - (ii) unrhyw gymwysterau neu nodweddion y ceisir eu cael yn y person a benodir;
- (b) trefnu i’r swydd gael ei hysbysebu’n gyhoeddus yn y fath fodd fel y bydd yn debygol o ddod i sylw personau sy’n gymwys i ymgeisio amdani; ac

the relevant authority must appoint a committee (“an investigation committee”) to consider the alleged misconduct.

(1A) For the purposes of this regulation “a relevant officer” (“*swyddog perthnasol*”) is—

- (a) the head of the authority’s paid service;
- (b) its monitoring officer;
- (c) its chief finance officer;
- (d) its head of democratic services; or
- (e) an officer who was, but at the time the investigation committee is appointed no longer is, an officer referred to in sub-paragraphs (a) to (d) where the alleged misconduct occurred during the period when the officer was an officer referred to in those sub-paragraphs.”;

(b) in paragraph (5)(b) for “National Assembly for Wales” substitute “Welsh Ministers”; and

(c) omit paragraph (11).

9.—(1) In Schedule 1, in Part 1—

(a) for paragraph 1 substitute—

“1.—(1) A relevant authority must take the steps set out in sub-paragraph (2) where—

- (a) it proposes to appoint a chief officer (within the meaning of the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006); and
- (b) the remuneration which it proposes to pay to the chief officer is £100,000 or more per annum.

(2) The steps are to—

- (a) draw up a statement specifying—
  - (i) the duties of the officer concerned, and
  - (ii) any qualifications or qualities to be sought in the person to be appointed;
- (b) make arrangements for the post to be publicly advertised in such a way as is likely to bring it to the attention of persons who are qualified to apply for it; and

- (c) trefnu i gopi o'r datganiad a grybwyllir ym mharagraff (a) gael ei anfon at unrhyw berson sy'n gwneud cais.

(3) Pan fo is-baragraff (1) yn gymwys nid yw'n ofynnol i'r awdurdod perthnasol gymryd y cam a nodir yn is-baragraff (2)(b) os yw'n bwriadu penodi'r prif swyddog am gyfnod o ddim mwy na 12 mis."

- (b) ym mharagraff 2(1) yn lle "1(b)" rhodder "1(2)(b)"; ac
- (c) ym mharagraff 2(2) yn lle "1(b)" rhodder "1(2)(b)".

(2) Yn Atodlen 1, yn Rhan 2, ym mharagraff 3 hepgorer is-baragraff (a).

**10.—(1) Yn Atodlen 3, yn Rhan 1—**

- (a) daw testun presennol paragraff 3 yn baragraff 3(1);
- (b) ym mharagraff 3(1), ar ôl paragraff (e) mewnosoder—
  - "(f) y swyddog a ddynodwyd yn swyddog monitro'r awdurdod; neu
  - (ff) y swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaethau democrataidd yr awdurdod.";

- (c) ar ôl paragraff 3(1) mewnosoder—

"(2) Nid yw paragraff 2 yn gymwys i ddiswyddo, na chymryd camau disgyblu yn erbyn, swyddog y bwriedir cymryd camau disgyblu mewn perthynas ag ef,—

- (a) a oedd yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 3(1)(a) i (ff), ond nad yw bellach, ar adeg y camau disgyblu arfaethedig, yn swyddog o'r fath; a
- (b) pan fo'r camymddwyn honedig neu, yn ôl y digwydd, y rheswm dros y cynnig o ddiswyddo, wedi digwydd yn ystod y cyfnod pan oedd y swyddog yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 3(1)(a) i (ff).";
- (d) ym mharagraff 4(2) yn lle "neu (ch) o baragraff 3" rhodder " , (ch), (f), neu (ff) o baragraff 3(1) neu'r swyddogaeth o ddiswyddo unrhyw swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 3(2)"; ac

- (e) ar ôl paragraff 5 mewnosoder—

"6. Rhaid i'r awdurdod perthnasol bennu lefel y gydnabyddiaeth ariannol, ac unrhyw newid yn lefel y gydnabyddiaeth ariannol, a delir i brif swyddog."

- (c) make arrangements for a copy of the statement mentioned in paragraph (a) to be sent to any person on request.

(3) Where sub-paragraph (1) applies, the relevant authority is not required to take the step set out in sub-paragraph (2)(b) if it proposes to appoint the chief officer for a period of no longer than 12 months."

- (b) in paragraph 2(1) for "1(b)" substitute "1(2)(b)"; and
- (c) in paragraph 2(2) for "1(b)" substitute "1(2)(b)".

(2) In Schedule 1, in Part 2, in paragraph 3 omit sub-paragraph (a).

**10.—(1) In Schedule 3, in Part 1—**

- (a) the existing text of paragraph 3 becomes paragraph 3(1);
- (b) in paragraph 3(1), after paragraph (g) insert—
  - "(h) the officer designated as the authority's monitoring officer; or
  - (i) the officer designated as the authority's head of democratic services.";

- (c) after paragraph 3(1) insert—

"(2) Paragraph 2 does not apply to the dismissal of, or disciplinary action against, an officer in relation to whom disciplinary action is proposed—

- (a) who was, but at the time of the proposed disciplinary action no longer is, an officer referred to in paragraph 3(1)(a) to (i); and
- (b) where the alleged misconduct, or, as the case may be, the reason for the proposal for dismissal, occurred during the period when the officer was an officer referred to in paragraph 3(1)(a) to (i).";
- (d) in paragraph 4(2) for "or (d) of paragraph 3" substitute " , (d), (h), or (i) of paragraph 3(1) or the function of dismissal of any officer referred to in paragraph 3(2)"; and

- (e) after paragraph 5 insert—

"6. The relevant authority must determine the level, and any change in the level, of the remuneration to be paid to a chief officer."



(2) Yn Atodlen 3, yn Rhan 2—

(a) daw testun presennol paragraff 3 yn baragraff 3(1);

(b) ym mharagraff 3(1), ar ôl paragraff (dd) mewnosoder—

“(e) y swyddog a ddynodwyd yn swyddog monitro’r awdurdod;

(f) y swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaethau democrataidd yr awdurdod.”;

(c) ar ôl paragraff 3(1) mewnosoder—

“(2) Nid yw paragraff 2 yn gymwys i ddiswyddo, na chymryd camau disgyblu yn erbyn, swyddog y bwriedir cymryd camau disgyblu mewn perthynas ag ef,—

(a) a oedd yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 3(1)(a) i (f), ond nad yw bellach, ar adeg y camau disgyblu arfaethedig, yn swyddog o’r fath; a

(b) pan fo’r camymddwyn honedig neu, yn ôl y digwydd, y rheswm dros y cynnig o ddiswyddo, wedi digwydd yn ystod y cyfnod pan oedd y swyddog yn swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 3(1)(a) i (f).”;

(d) ym mharagraff 4(2) yn lle “neu (ch) o baragraff 3” rhodder “, (ch), (e), neu (f) o baragraff 3(1) neu’r swyddogaeth o ddiswyddo unrhyw swyddog y cyfeirir ato ym mharagraff 3(2)”;

(e) ar ôl paragraff 5 mewnosoder—

“6. Rhaid i’r awdurdod perthnasol bennu lefel y gydnabyddiaeth ariannol, ac unrhyw newid yn lefel y gydnabyddiaeth ariannol, a delir i brif swyddog.”

(3) Yn Atodlen 3, hepgorer Rhannau 3 a 4.

11.—(1) Yn Atodlen 4, ym mharagraff 1—

(a) hepgorer ““rheolwr cyngor” (“*council manager*”),”; a

(b) yn lle “a “swyddog monitro” (“*monitoring officer*”)” rhodder “, “swyddog monitro” (“*monitoring officer*”) a “pennaeth gwasanaethau democrataidd” (“*head of democratic services*”)”.

(2) Yn Atodlen 4—

(a) daw testun presennol paragraff 2 yn baragraff 2(1) o’r paragraff hwnnw;

(2) In Schedule 3, in Part 2—

(a) the existing text of paragraph 3 becomes paragraph 3(1);

(b) in paragraph 3(1), after paragraph (f) insert—

“(g) the officer designated as the authority’s monitoring officer;

(h) the officer designated as the authority’s head of democratic services.”;

(c) after paragraph 3(1) insert—

“(2) Paragraph 2 does not apply to dismissal of, or disciplinary action against, an officer in relation to whom disciplinary action is proposed—

(a) who was, but at the time of the proposed disciplinary action no longer is, an officer referred to in paragraph 3(1)(a) to (h); and

(b) where the alleged misconduct, or, as the case may be, the reason for the proposal for dismissal, occurred during the period when the officer was an officer referred to in paragraph 3(1)(a) to (h).”;

(d) in paragraph 4(2) for “or (d) of paragraph 3” substitute “, (d), (g), or (h) of paragraph 3(1) or the function of dismissal of any officer referred to in paragraph 3(2)”;

(e) after paragraph 5 insert—

“6. The relevant authority must determine the level, and any change in the level, of the remuneration to be paid to a chief officer.”

(3) In Schedule 3 omit Parts 3 and 4.

11.—(1) In Schedule 4, in paragraph 1—

(a) omit ““council manager” (“*rheolwr cyngor*”),”; and

(b) for “and monitoring officer” (“*swyddog monitro*”)” substitute “, “monitoring officer” (“*swyddog monitro*”) and “head of democratic services” (“*pennaeth gwasanaethau democrataidd*”)”.

(2) In Schedule 4—

(a) the existing text of paragraph 2 becomes paragraph 2(1) of that paragraph;

- (b) ym mharagraff 2(1)—
  - (i) hepgorer “(oni fo pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod hefyd yn rheolwr cyngor yr awdurdod)”;
  - (ii) yn lle “neu ei brif swyddog cyllid” rhodder “, ei brif swyddog cyllid, ei bennaeth gwasanaethau democrataidd neu unrhyw swyddog y cyfeirir ato yn is-baragraff (2)”;
- (c) ar ôl paragraff 2(1) mewnosoder—
 

“(2) Swyddog y bwriedir cymryd camau disgyblu mewn perthynas ag ef—

  - (a) pan oedd y swyddog yn swyddog y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), ond nad yw bellach, ar adeg y camau disgyblu arfaethedig, yn swyddog o’r fath; a
  - (b) pan fo’r camymddwyn honedig neu, yn ôl y digwydd, y rheswm dros y cynnig o ddiswyddo, wedi digwydd yn ystod y cyfnod yr oedd y swyddog yn swyddog y cyfeirir ato yn is-baragraff (1).”

### Darpariaethau trosiannol

**12.** O ran unrhyw beth a wnaed gan swyddog, iddo neu mewn perthynas ag ef, cyn y dyddiad y mae’r awdurdod perthnasol yn ymgorffori rheolau sefydlog yn unol â’r Rheoliadau hyn, yn unol â—

- (a) rheoliad 9 o Reoliadau 2006; neu
- (b) y darpariaethau a nodir yn Atodlen 4 i Reoliadau 2006 (neu ddarpariaethau sy’n cael yr un effaith) a ymgorfforir yn rheolau sefydlog yr awdurdod perthnasol,

caniateir parhau i’w wneud ar ôl y dyddiad hwnnw gan y swyddog hwnnw, iddo neu mewn perthynas ag ef yn unol â’r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) neu (b), yn ôl y digwydd.

### Gweithredu

**13.** Rhaid i awdurdod perthnasol adolygu ei reolau sefydlog presennol i’r graddau y bo’n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn ddim hwyrach na’r dyddiad sydd ddeng wythnos ar ôl i’r Rheoliadau hyn ddod i rym.

- (b) in paragraph 2(1)—
  - (i) omit “(unless the head of the authority’s paid service is also a council manager of the relevant authority)”;
  - (ii) for “or its chief finance officer” substitute “, its chief finance officer, its head of democratic services or any officer referred to in sub-paragraph (2)”;
- (c) after paragraph 2(1) insert—
 

“(2) An officer in relation to whom disciplinary action is proposed where—

  - (a) the officer was, but at the time of the proposed disciplinary action no longer is, an officer referred to in sub-paragraph (1); and
  - (b) the alleged misconduct or, as the case may be, the reason for the proposal for dismissal, occurred during the period when the officer was an officer referred to in sub-paragraph (1).”

### Transitional provisions

**12.** Anything which, before the date on which the relevant authority incorporates standing orders in accordance with these Regulations, was being done by, to or in relation to an officer in accordance with—

- (a) regulation 9 of the 2006 Regulations; or
- (b) the provisions set out in Schedule 4 to the 2006 Regulations (or provisions to the like effect) incorporated in the relevant authority’s standing orders,

may be continued after that date by, to or in relation to that officer in accordance with the provisions referred to in paragraphs (a) or (b), as the case may be.

### Implementation

**13.** A relevant authority must revise its existing standing orders in so far as is necessary to conform with the amendments made by these Regulations by no later than the date which is ten weeks after these Regulations come into force.

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y  
Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

9 Mehefin 2014

Minister for Local Government and Government  
Business, one of the Welsh Ministers

9 June 2014

---

©<sup>©</sup> Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2014 Rhif 1514 (Cy. 155)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol  
(Rheolau Sefydlog) (Cymru)  
(Diwygio) 2014

**2014 No. 1514 (W. 155)**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

The Local Authorities (Standing  
Orders) (Wales) (Amendment)  
Regulations 2014

£6.00

W1988/06/14

ON

ISBN 978-0-348-10954-2



9 780348 109542